GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Ein cyfeirnod: DB/02/08/2019

Date: 2 Awst 2019

SeneddHealth@assembly.wales

Health Education and Improvement Wales
Ty Dysgu
Cefn Coed
Nantgarw
Cardiff
CF15 7QQ

03300 585 005
heiw@wales.nhs.uk

Annwyl Syr,

**Parthed: Ymateb AaGIC i ' r ymgynghoriad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ("Bil Ansawdd")**

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ymgymryd â phroses ymgynghori ar y Bil Ansawdd uchod, mae ' n bleser gennyf amlinellu isod ymateb Bwrdd AaGIG mewn perthynas â'r mater.

*Atgyfnerthu ' r Ddyletswydd Ansawdd.* Mae AaGIC yn croesawu'r cynnig ac yn cydnabod y bydd ganddo hefyd rôl arweiniol yn y gwaith o ddarparu a chomisiynu addysg a hyfforddiant ar y ddyletswydd hon ar gyfer gweithlu proffesiynol meddygol ôl-raddedig ac iechyd is-raddedig GIG Cymru.

*Dyletswydd Gonestrwydd.* Mae AaGIC yn croesawu ' r cynnig. Er na fydd gan AaGIC gysylltiad uniongyrchol â chleifion, yr ydym yn cydnabod y bydd gennym rôl arweiniol i ' w chwarae yn y gwaith o ddarparu a chomisiynu addysg a hyfforddiant ar y ddyletswydd hon ar gyfer gweithlu proffesiynol meddygol ôl-raddedig ac iechyd is-raddedig GIG Cymru.

*Galluogi Gweinidogion Cymru i benodi Is-Gadeirydd ar Fyrddau Ymddiriedolaeth y GIG.* Dymuna AaGIG fod y Bil Ansawdd hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi Is-Gadeiryddion ar gyfer Awdurdodau Iechyd Arbennig. Gan fod AaGIC yn Awdurdod Iechyd Arbennig, byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi ein His-Gadeirydd. Byddai hyn yn cael y fantais o ddod ag AaGIC yn unol â ' r sefyllfa bresennol ar gyfer byrddau iechyd, ynghyd a bod yn gyson â ' r cynnig o dan y Bil Ansawdd ar gyfer ymddiriedolaethau ' r GIG.

*Corff Llais y Dinesydd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu rôl y Corff Llais y Dinesydd newydd. Teimlwn y dylai ' r corff newydd gael adnoddau digonol ac y dylid cryfhau'r lefel gywir o fynediad a chydweithrediad. Argymhellir hefyd y dylid cael eglurder o ran y dulliau o ymdrin ag anghytundebau sylfaenol rhwng materion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn gywir,

Dafydd Bebb
**Ysgrifennydd y Bwrdd**
**AaGIC**


- Chairman/Cadeirydd: **Dr Chris Jones**
- Chief Executive/Prif Weithredwr: **Alex Howells**

HEIW Headquarters/ Pencadlys HEIW, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Cardiff, CF15 7QQ.
Telephone/Ffôn: 03300 585 005